# Dull AGChY o Addysgu Gymnasteg
# Trosolwg o Uned 18

## Canlyniadau ar gyfer Uned 18

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

| Canlyniadau Gwers 1 | Canlyniadau Gwers 2 | Canlyniadau Gwers 3 | Canlyniadau Gwers 4 | Canlyniadau Gwers 5 | Canlyniadau Gwers 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| - Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth<br>- Creu a pherfformio dilyniant ar y llawr mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â mwy o reolaeth a chywirdeb<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain<br>- Defnyddio geiriau allweddol i wella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad | - Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig<br>- Defnyddio cyfarpar bach i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb<br>- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain | - Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig<br>- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb<br>- Gofyn cwestiynau i wella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad | - Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth<br>- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd<br>- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb<br>- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill<br>- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad | - Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig<br>- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd<br>- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson<br>- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill | - Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth<br>- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd<br>- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson<br>- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad |

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 18 Gwers 1 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Canlyniadau Gwers 1**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Creu a pherfformio dilyniant ar y llawr mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â mwy o reolaeth a chywirdeb
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain
- Defnyddio geiriau allweddol i wella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gweithgaredd Camelod yn Cysgu. Adolygwch yr hyn a ddysgwyd yn flaenorol, yn enwedig y gwaith sy'n ymwneud â gweithgareddau a sgiliau addysgu'r corff.

**Archwilio**

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Olwyndroi. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau yn ôl yr angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio mewn modd diogel a chyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rhoi pwysau'r corff ar y dwylo. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Olwyndroi ac allan ohonynt.

Cyflwynwch y cysyniad o adlewyrchu mewn gymnasteg. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i archwilio adlewyrchu. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio ystod mor eang ag sy'n bosibl o weithgareddau a sgiliau addysgu'r corff. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio camerâu digidol i weld pa mor gywir y mae eu gwaith adlewyrchu.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant ar y llawr mewn pâr sy'n cynnwys o leiaf un weithred o'r teulu o weithgareddau Olwyndroi, gweithred adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau eraill a gaiff eu perfformio â mwy o reolaeth a chywirdeb.

**Ymyrryd**

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n adlewyrchu'n effeithiol. Beth sy'n gwneud eu gweithred adlewyrchu'n effeithiol? Gofynnwch i'r dysgwyr ddisgrifio sut y maent yn gweithio. Defnyddiwch wal eiriau i drafod ansawdd ac amrywiaeth. Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n perfformio â mwy o reolaeth a chywirdeb. Sut gallwch chi wella eich perfformiad? Atgyfnerthwch y defnydd cywir o eiriau allweddol/terminoleg.

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr greu dilyniant ar y llawr mewn pâr sy'n cynnwys o leiaf un weithred o'r teulu o weithgareddau Olwyndroi, gweithred adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau eraill a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb.

**Gwerthuso**

Sesiwn hunanwerthuso a gaiff ei harwain gan yr athro. Bydd yr athro'n rhoi nifer o gardiau adnoddau â geiriau allweddol arnynt i bob pâr, a bydd yn gofyn i'r pâr ddewis 3 cherdyn y byddant yn eu defnyddio wrth werthuso eu perfformiad. Gofynnwch i'r parau rannu eu gwerthusiadau â phâr arall. Trafodwch sut mae pob pâr wedi defnyddio'r gair allweddol ac unrhyw eiriau allweddol eraill a allai fod yn berthnasol.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 18 Gwers 2 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Canlyniadau Gwers 2**

- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio cyfarpar bach i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain

**Adolygu**

Cyflwynwch y gweithgaredd Eliffantod bach; defnyddiwch y gweithgaredd hwn i gynhesu. Defnyddiwch eiriau allweddol i adolygu'r hyn a ddysgwyd yn y wers ddiwethaf.

**Archwilio**

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Olwyndroi. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau yn ôl yr angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio mewn modd diogel a chyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rhoi pwysau'r corff ar y dwylo. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Olwyndroi ac allan ohonynt. Gofynnwch i'r dysgwyr arbrofi â pherfformio gweithgareddau newydd fel adlewyrchiad o'u partner. Trafodwch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn, a sut gall y dysgwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb. Gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio a defnyddio eu trefn eu hunain ar gyfer gosod y cyfarpar. Defnyddiwch yr adnodd cynllunio ar y CD-Rom fel y bo'n briodol.

**Ymyrryd**

Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n perfformio â rheolaeth a chywirdeb. Gofynnwch i weddill y dosbarth ddefnyddio geiriau allweddol i ddisgrifio'r enghreifftiau yr ydych wedi tynnu sylw atynt. Gofynnwch i'r dysgwyr sydd wedi arddangos eu gwaith ddweud pa sylwadau oedd yn ddefnyddiol a pha agweddau ar yr adborth y byddant yn eu defnyddio er mwyn gwella eu perfformiad. Gofynnwch i weddill y dosbarth sut y byddant yn gwella eu gwaith o ganlyniad i wrando ar syniadau'r perfformwyr.

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i ddau bâr arall.

**Gwerthuso**

Sesiwn werthuso a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Bydd y pâr sy'n perfformio'n cael adborth gan y ddau bâr sy'n arsylwi, ac yna byddant yn nodi pa agweddau ar yr adborth hwn y byddant yn eu defnyddio er mwyn gwella eu perfformiad eu hunain. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio gweithgaredd cynhesu sy'n cynnwys Eliffantod bach, a dod â'u syniadau i'r wers nesaf.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 18 Gwers 3 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Canlyniadau Gwers 3**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb
- Gofyn cwestiynau i wella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Adolygu**
Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio eu syniadau o'u gwaith dysgu gartref. Gofynnwch iddynt rannu'r syniadau mewn grwpiau o 4 neu 5.

**Archwilio**
Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Olwyndroi. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau yn ôl yr angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio mewn modd diogel a chyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rhoi pwysau'r corff ar y dwylo. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Olwyndroi ac allan ohonynt. Gofynnwch i'r dysgwyr arbrofi â pherfformio gweithgareddau newydd fel adlewyrchiad o'u partner. Trafodwch y dewisiadau ar gyfer lleoli'r llinell adlewyrchu ddychmygol. Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio trefniannau gofodol ac adlewyrchu, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar leoliad posibl y llinell adlewyrchu. Trafodwch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn, a sut gall y dysgwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain. Tynnwch y cyfarpar allan a'i osod ar ffurf a gynlluniwyd gan y dysgwyr.

**Creu**
Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cyfarpar i greu dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu, ystod o drefniannau gofodol ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb.

**Ymyrryd**
Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n perfformio ystod o weithrediadau adlewyrchu dychmygus. Trafodwch pam y maent yn ddychmygus, a beth yw'r posibiliadau eraill. Defnyddiwch y cardiau adnoddau sy'n ymwneud â holi o'r adnoddau AGChY ar gyfer Dawns CA2 i gefnogi sgiliau holi'r dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am restr o gwestiynau y gallent eu gofyn i'w hunain neu eraill, a fyddai'n eu helpu i wella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill. Anogwch y dysgwyr i weithio gyda'i gilydd i adolygu'r rhestr er mwyn llunio cwestiynau effeithiol.

**Perfformio**
Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i ddau bâr arall.

**Gwerthuso**
Sesiwn werthuso a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Rhowch y pâr sy'n perfformio yn y gadair boeth lle maent yn gofyn cwestiynau i'r arsylwyr a fydd yn eu helpu i wella ansawdd ac amrywiaeth eu gwaith. Gadewch i'r dysgwyr gyfeirio at y cwestiynau a baratowyd ganddynt yn flaenorol. Gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio'r hyn y byddant yn ei wneud yn y wers nesaf er mwyn gwella eu perfformiad.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 18 Gwers 4 |
| --- | --- | --- |

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Canlyniadau Gwers 4**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Adolygu**

Cyflwynwch y gweithgaredd Cynnal a throi, a defnyddiwch hwn fel gweithgaredd cynhesu. Gofynnwch i'r dysgwyr ailedrych ar y cynllun o'r wers ddiwethaf, a chynllunio sut i wneud gwelliannau.

**Archwilio**

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Olwyndroi. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau yn ôl yr angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio mewn modd diogel a chyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rhoi pwysau'r corff ar y dwylo. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Olwyndroi ac allan ohonynt. Gofynnwch i'r dysgwyr arbrofi â pherfformio gweithgareddau newydd fel adlewyrchiad o'u partner. Trafodwch y dewisiadau ar gyfer lleoli'r llinell adlewyrchu ddychmygol. Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio trefniannau gofodol ac adlewyrchu, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar leoliad posibl y llinell adlewyrchu. Trafodwch y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn, a sut gall y dysgwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain. Tynnwch y cyfarpar allan a'i osod ar ffurf a gynlluniwyd gan y dysgwyr.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cyfarpar i greu dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu, ystod o drefniannau gofodol ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb. Gofynnwch i'r dysgwyr ailedrych ar y cynllun o'r wers ddiwethaf, gan sicrhau bod pob agwedd a nodwyd ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn y dilyniant newydd.

**Ymyrryd**

Trafodwch egwyddorion cyfansoddi. Addaswch adnoddau AGChY Dawns CA2/3, a chymharwch a chyferbynnwch y ffactorau sy'n hybu dawns o ansawdd. Trafodwch pa agweddau y gellir eu trosglwyddo, pa agweddau nad ydynt yn berthnasol a beth arall y dylid ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried perfformiadau o ansawdd mewn gweithgareddau gymnasteg. Crëwch wal eiriau o'r prif ffactorau sy'n hybu ansawdd.

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i ddau bâr arall.

**Gwerthuso**

Sesiwn werthuso a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Gofynnwch i'r parau sy'n arsylwi ddefnyddio'r wal eiriau ac adnoddau holi i roi adborth i'r perfformwyr. Gofynnwch i'r perfformwyr osod targedau ar gyfer gwella i'w cyflawni yn y wers nesaf.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 18 Gwers 5 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Canlyniadau Gwers 5**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill

**Adolygu**
Cyflwynwch y gweithgaredd Tag troi mewn cylch. Defnyddiwch hwn fel gweithgaredd cynhesu. Adolygwch y ffactorau sy'n hybu ansawdd, a gofynnwch i'r dysgwyr drafod sut y maent yn mynd i gyrraedd y targedau ar gyfer gwella.

**Archwilio**
Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Olwyndroi. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau yn ôl yr angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio mewn modd diogel a chyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig â rhoi pwysau'r corff ar y dwylo. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Olwyndroi ac allan ohonynt. Tynnwch y cyfarpar allan a'i osod ar ffurf a gynlluniwyd gan y dysgwyr.

**Creu**
Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cyfarpar i greu dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu, ystod o drefniannau gofodol ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson.

**Ymyrryd**
Tynnwch sylw at ddysgwyr sy'n perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson. Trafodwch sut mae rheolaeth a chywirdeb yn perthyn i ansawdd. Defnyddiwch y geiriau a oedd ar y wal eiriau'r wythnos diwethaf a'r strategaeth asesu ar gyfer dysgu – Bwrw'r nod. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau. Bydd pob grŵp yn cael set o eiriau, a rhaid iddynt eu gosod ar y targed sy'n debyg i darged bwa a saeth i nodi pa mor bwysig ydynt wrth geisio gwella perfformiad. Y geiriau sydd agosaf i ganol y targed yw'r rhai pwysicaf, a'r geiriau sydd yn y cylchoedd allanol yw'r rhai lleiaf pwysig. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella eu gwaith ymhellach.

**Perfformio**
Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i bâr arall.

**Gwerthuso**
Sesiwn hunanwerthuso a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ynghylch y graddau y mae eu perfformiad wedi gwella gan ddefnyddio'r gweithgaredd Bwrw'r nod i dargedu agweddau i'w gwella, a thrafod a oedd eu barn ynghylch lleoliad pob gair yn gywir, ac a oes angen iddynt newid safle unrhyw un o'r geiriau. Sesiwn werthuso gan gyfoedion a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r llun Bwrw'r nod sydd wedi'i ddiwygio i roi adborth i'r pâr arall. Gofynnwch i'r pâr sy'n perfformio osod targedau ar gyfer y wers nesaf. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio gweithgaredd cynhesu sy'n cynnwys Eliffantod bach, gweithgaredd Cynnal a throi a Thag troi mewn cylch.

| Modiwl 3 | Cynllun gwers enghreifftiol | Uned 18 Gwers 6 |
|---|---|---|

**Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gallu:**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithrediadau eu hunain a dechrau deall y risgiau cysylltiedig
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Gwrando'n ofalus ar yr hyn y mae eraill yn ei ddweud am eu gwaith, a defnyddio eu harsylwadau i wella effeithiolrwydd ac ansawdd eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau dysgwyr eraill
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Canlyniadau Gwers 6**
- Ymarfer ystod o weithrediadau Olwyndroi sy'n gynyddol gymhleth
- Defnyddio egwyddorion cyfansoddi i gynllunio perfformiad ag ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n hybu ansawdd
- Defnyddio'r cyfarpar i greu a pherfformio dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson
- Cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain, a defnyddio geiriau allweddol a gofyn cwestiynau i ymestyn a gwella ansawdd ac amrywiaeth eu perfformiad

**Adolygu**

Gofynnwch i'r dysgwyr gynhesu gan ddefnyddio'r gweithgareddau y maent wedi'u cynllunio. Gofynnwch iddynt adolygu'r agweddau i'w gwella yn y wers hon, a thrafodwch yn fanwl sut y bydd popeth y mae'r dysgwyr wedi'i glywed yn yr uned hon yn cael effaith ar eu perfformiad.

**Archwilio**

Trefnwch y gorsafoedd gwaith cynhwysol ar gyfer y teulu o weithrediadau Olwyndroi. Dangoswch y sgiliau i'r dysgwyr gan ddefnyddio'r clip fideo ar y CD-Rom. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio'n unigol ac mewn parau a grwpiau yn ôl yr angen, gan symud ymlaen i'r gweithgaredd nesaf pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny. Rhaid i'r athro fonitro'r gwaith er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu herio'n briodol. Bydd angen i chi drafod ac atgyfnerthu'r angen i weithio mewn modd diogel a chyfrifol. Sicrhewch bod pob un o'r dysgwyr yn ymwybodol o'r materion diogelwch sy'n gysylltiedig â rhoi pwysau'r corff ar y dwylo. Sicrhewch bod y dysgwyr yn archwilio gweithrediadau sy'n arwain i mewn i'r gweithgareddau Olwyndroi ac allan ohonynt. Tynnwch y cyfarpar allan a'i osod ar ffurf a gynlluniwyd gan y dysgwyr.

**Creu**

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cyfarpar i greu dilyniant mewn pâr sy'n cynnwys gweithrediadau adlewyrchu, ac ystod eang o sgiliau a gweithgareddau a gaiff eu perfformio â rheolaeth a chywirdeb cyson.

**Ymyrryd**

Trafodwch sut gall y dysgwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaith dysgu eu hunain. Defnyddiwch enghreifftiau o'r gwersi blaenorol a thrafodwch gyfleoedd eraill.

**Perfformio**

Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio i bâr arall. Recordiwch y dilyniannau ar gamera digidol.

**Gwerthuso**

Sesiwn hunanwerthuso a gaiff ei harwain gan y dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr ddadansoddi cryfderau eu perfformiad mewn perthynas ag ansawdd ac amrywiaeth, a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Dysgu gartref: gofynnwch i'r dysgwyr gynllunio rhaglen hyfforddi i'w cynorthwyo i ddatblygu yn y dyfodol.